

The logo for Ofcom, featuring the word "Ofcom" in a bold, red, sans-serif font. Below the text is a horizontal bar composed of several colored segments: purple, blue, green, yellow, red, and purple.

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

Adolygu'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol

Ymgynghoriad ar y diffiniad o'r farchnad,
penderfyniadau ac atebion mewn perthynas â phŵer yn y
farchnad

Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn
Ymatebion:

Ymgynghoriad
22 Mehefin 2017
14 Medi 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae gan wasanaethau band eang rôl bwysig yn galluogi cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid busnes i gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau a chynnwys. Mae cystadleuaeth adwerthu effeithiol yn allweddol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn elwa o brisiau is, mwy o ddewis, gwasanaethau o ansawdd gwell ac arloesed. Mae hefyd wedi annog llawer o ddefnyddwyr (78%) i fanteisio ar fand eang sefydlog.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio asesiad dros dro Ofcom o gystadleuaeth ym marchnadoedd Mynediad Band Eang Cyfanwerthol y Deyrnas Unedig. Mae'r gwasanaethau yn y marchnadoedd hyn yn cael eu prynu gan ddarparwyr gwasanaethau telegyfathrebu er mwyn cyflenwi gwasanaethau band eang adwerthol i gwsmeriaid busnes a chwsmeriaid preswyl.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'n dadansoddiad ni o gystadleuaeth yn y marchnadoedd hyn, gan ganolbwyntio ar benderfynu a oes unrhyw ddarparwr gwasanaethau telegyfathrebu mewn sefyllfa sy'n ddigon cryf i ddylanwadu ar ganlyniadau yn y marchnadoedd. Rydym wedyn yn nodi'r offerynnau rheoleiddio yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno i ddiogelu cystadleuaeth yn yr ardaloedd hynny lle nad yw cystadleuaeth gyfanwerthol yn effeithiol.


Adran 1

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

- 1.1 Mae band eang wedi dod yn wasanaeth fwyfwy pwysig i gwsmeriaid busnes a phreswyl yn y Deyrnas Unedig ac erbyn hyn mae gan 78% o holl adeiladau'r DU fynediad i wasanaeth band eang sefydlog.¹ Hefyd, mae defnyddio band eang wedi cynyddu'n sylweddol wrth i ddefnyddwyr fynd ar y rhyngwrwd ar nifer cynyddol o ddyfeisiau ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau, megis gwylio cynnwys ar-lein, chwarae gemau a galwadau fideo. Mae'r defnydd wedi cynyddu o 58GB i 132GB y mis ar gyfer pob cysylltiad preswyl yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac mae cyflymderau band eang hefyd wedi cynyddu, i fyny o 23Mbit yr eiliad i 37Mbit yr eiliad ar gyfartaledd dros yr un cyfnod.²
- 1.2 Mae cystadleuaeth adwerthol effeithiol wedi bod yn bwysig ar gyfer sicrhau'r newidiadau hyn. Mae cystadleuaeth yn cadw prisiau'n isel, gan sicrhau bod band eang a data yn fforddiadwy, ac mae'n ysgogi arloesed technolegol. Fel y dengys y graff isod, mae defnydd defnyddwyr o ddata wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, tra bo cost eu cysylltiadau band eang dim ond wedi codi ychydig mewn termau real. Hefyd, mae cyflymder cysylltiadau band eang wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr un cyfnod.

Ffigur 1.1: Tueddiadau yn y gwariant ar fand eang, cyflymderau band eang a'r defnydd o ddata o'i gymharu â 2011



Ffynhonnell. Adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd a Seilwaith 2011-2016 (<https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/infrastructure-research>) ac Adroddiad Ofcom ar y

¹ Ofcom, Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2016, Rhagfyr 2016, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0035/95876/CN-Report-2016.pdf, tudalen 1.

² Ibid ac Ofcom, Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2015, 1 Rhagfyr 2015, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0028/69634/connected_nations2015.pdf, tudalen 1.

Farchnad Gyfathrebiadau 2016, ffigur 1.2

(https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/26273/uk_context.pdf)

Nodiadau: Y sail ydy 2011=100; y data ar wariant yn wreiddiol ym mhrisiau 2015 wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant (CPI).

- 1.3 Gan BT y mae'r rhwydwaith telegyfathrebiadau sefydlog mwyaf yn y Deyrnas Unedig, yn cyflenwi bron pob adeilad. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr telegyfathrebiadau'n cynnig gwasanaethau band eang adwerthol i gwsmeriaid gan ddefnyddio'r rhwydwaith hwn, o leiaf i ryw raddau. Mae rhai darparwyr, megis Sky a TalkTalk, wedi gosod eu cyfarpar eu hunain mewn sawl un o gyfnewidfeydd BT, drwy broses o'r enw Dadfwn delu Dolenni Lleol (LLU) ac mae hyn yn golygu bod ganddynt lefel uchel o reolaeth dros y gwasanaethau y gallant eu cynnig. Mae darparwyr sydd wedi dewis peidio â defnyddio LLU fel arfer yn prynu gwasanaethau band eang cyfanwerthol oddi wrth BT. Virgin Media ydy'r unig ddarparwr telegyfathrebiadau o bwys yn y Deyrnas Unedig nad yw'n dibynnu o gwbl ar rwydwaith BT, gan ei fod yn berchen ar rwydwaith cebl y mae'n ei ddefnyddio i ddarparu band eang a gwasanaethau eraill fel Teledu Drwy Dalu a theleffoni.
- 1.4 Yr unig ardal yn y Deyrnas Unedig nad yw'n cael ei gwasanaethu gan BT yw Ardal Hull. Yn ardal Hull, KCOM sy'n berchen ac yn rhedeg y rhwydwaith telegyfathrebiadau mwyaf. Mae gweddill y ddogfen hon yn sôn am y Deyrnas Unedig *heb gynnwys Ardal Hull*. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad arall ar ein canfyddiadau a'n cynigion ar gyfer gwella cystadleuaeth band eang yn Ardal Hull.³

Cyd-destun strategol ein hadolygiad o'r farchnad

- 1.5 Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddasom gasgliadau cychwynnol ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol (DCR). Yn yr adolygiad, gwnaethom nodi ein strategaeth i:
- annog sefydlu rhwydweithiau band eang gwibgyswllt newydd ar raddfa fawr, gan gynnwys ffibr yn uniongyrchol i gartrefi a busnesau (a elwir weithiau'n 'ffibr-llawn') - byddai'r rhwydweithiau hyn yn cynnal cyflymderau uchel iawn a dylent fod yn fwy dibynadwy na rhwydweithiau copr;
 - sicrhau newid sylweddol yn ansawdd gwasanaethau - er mwyn cael gwasanaethau mwy dibynadwy i ddefnyddwyr a iawndal awtomatig os aiff pethau o chwith;
 - diwygio adran rhwydwaith mynediad BT (Openreach) - i sicrhau ei fod yn fwy annibynnol ar BT ac yn gwasanaethu'r holl gwsmeriaid cyfanwerthol yn gyfartal;
 - gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod gan bob cartref a busnes bach yn y DU hawl gyffredinol i gael band eang boddhaol a fforddiadwy;
 - rhoi'r grym i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau doeth; a
 - dadreoleiddio a symleiddio gan warchod defnyddwyr yr un pryd.

³Ofcom, *Wholesale Local Access and Wholesale Broadband Access Market Reviews: Review of competition in the Hull Area*, 22 June 2017, <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-broadband-access-market-reviews-hull>.

- 1.6 Yr adolygiad hwn o'r farchnad WBA yw un o'r pethau rydym yn eu defnyddio i gyflwyno ein strategaeth, ochr yn ochr â chynlluniau eraill fel yr adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLA) (gan gynnwys cynigion i hwyluso mynediad darparwyr telegyfathrebiadau at bolion a phibellau BT), adolygiad o ofynion ansawdd gwasanaeth Openreach a chynigion ar iawndal awtomatig a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

Mae rheoleiddio cyfanwerthol yn cefnogi cystadleuaeth adwerthol

- 1.7 Mae'r ffaith fod darparwyr telegyfathrebiadau eraill yn defnyddio rhwydwaith BT yn bwysig er mwyn hyrwyddo a chynnal cystadleuaeth adwerthol effeithiol mewn band eang, a'n gwaith rheoleiddio ni yn y marchnadoedd cyfanwerthol sy'n sicrhau'r mynediad hwn i ddarparwyr telegyfathrebiadau sy'n cystadlu â'i gilydd. Un o'n prif ddulliau ar gyfer ceisio sicrhau cystadleuaeth band eang adwerthol effeithiol yw drwy'r drefn reoleiddio rydym wedi'i sefydlu yn y farchnad WLA, sy'n gosod y rheolau ar gyfer mynediad i seilwaith BT (polion, pibellau ceblau ac yn y blaen) sy'n darparu'r cysylltiad i adeiladau defnyddwyr. Mae'r mesurau rydym wedi'u cyflwyno yn y farchnad WLA yn cynnwys LLU, VULA (Rhith-Fynediad Lleol wedi'i Dadfwndelu), a ddefnyddir i ddarparu band eang safonol a chyflym iawn dros rwydwaith BT, a PIA (Mynediad i Seilwaith Ffisegol). Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddasom ymgynghoriad ar ein cynigion i reoleiddio'r farchnad WLA, gyda'r nod o sicrhau bod cystadleuaeth yn aros ar yr un lefel, gan gefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr-llawn ar yr un pryd⁴. Hefyd, ym mis Ebrill 2017, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn gofyn am fewnbwn ar y gwaith rydym yn ei wneud i wella cynnyrch mynediad i bolion a phibellau Openreach, sy'n deillio o'r drefn Mynediad i Seilwaith Ffisegol ac sy'n cefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau band eang gwibgyswllt.⁵
- 1.8 Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol (WBA), sydd yn y canol rhwng y farchnad WLA a gwasanaethau adwerthol.
- 1.9 Yn hanesyddol, mae cynnyrch WBA BT wedi chwarae rhan bwysig yn galluogi darparwyr telegyfathrebiadau i gynnig gwasanaethau band eang heb orfod buddsoddi yn eu cyfarpar eu hunain, mewn rhai achosion gyda'r bwriad o adeiladu sylfaen cwsmeriaid cyn buddsoddi. Ond, mae'r defnydd o gynnyrch WBA gan ddarparwyr telegyfathrebiadau heblaw BT wedi gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf. Mae'r darparwyr telegyfathrebiadau mwy wedi dadfwndelu cyfnewidfeydd BT (gan ddefnyddio LLU) ac wedi buddsoddi yn eu cyfarpar eu hunain. Bellach, mae'r darparwyr hyn yn defnyddio LLU dros y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig i ddarparu gwasanaethau band eang adwerthol.
- 1.10 Rydym wedi dadreoleiddio'n gyson yn y farchnad WBA yn y rhannau hynny o'r DU lle mae presenoldeb sawl cwmni sy'n defnyddio LLU a rhwydwaith cebl Virgin Media wedi golygu bod gan gwsmeriaid sawl darparwr band eang i ddewis ohonynt. Yn yr adolygiad o'r farchnad WBA yn 2010, dim ond rheoleiddio ardaloedd a oedd yn rhoi cyfrif am oddeutu 22% o adeiladau'r DU y gwnaethom, ac yn yr adolygiad diwethaf yn 2014, gwnaethom leihau hyn i lai na 10% o adeiladau'r DU.

⁴ Ofcom, *Wholesale Local Access Market Review – Volume 1: Consultation on the proposed market, market power determinations and remedies, Consultation*, 31 Mawrth 2017, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0033/99636/Vol1-Market-review.pdf

⁵ Ofcom, *Wholesale Local Access Market Review: Consultation on Duct and Pole Access remedies, Consultation*, 20 Ebrill 2017, https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/101051/duct-pole-access-remedies-consultation.pdf

- 1.11 Ers yr adolygiad diwethaf, mae rhagor o ddefnydd wedi'i wneud o LLU yn yr ardaloedd llai cystadleuol. Ond, yn fwy arwyddocaol, mae BT wedi uwchraddio ei rwydwaith i ffibr mewn rhai o'r ardaloedd hyn sy'n galluogi darparwyr telegyfathrebiadau i wasanaethu mwy o gwsmeriaid fesul cyfnewidfa nag y gallant yn defnyddio'r rhydwaith copr presennol. Mae'r datblygiadau hyn gyda'i gilydd wedi lleihau nifer yr ardaloedd lle nad oes dim neu fawr ddim cystadleuaeth o ran band eang i oddeutu 2% o'r wlad.
- 1.12 Mae cystadleuaeth adwerthol yn yr ardaloedd hyn yn y DU (y cyfeiriwn atynt fel Marchnad A) yn brin ac nid ydym yn disgwyl y bydd sefydlu atebion cyfanwerthol i hyrwyddo mynediad neu ehangu yn y farchnad hon yn debygol o gynyddu cystadleuaeth adwerthol yn sylweddol. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r prif ddarparwyr telegyfathrebiadau sy'n gweithredu'n genedlaethol wedi dweud wrthym eu bod naill wedi rhoi'r gorau i gynnig gwasanaethau ym Marchnad A neu ddim yn cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid newydd. Credwn mai'r rheswm am hyn yw'r gost uwch o wasanaethu'r cwsmeriaid hyn (oherwydd lleoliad a chost cynnal systemau oddi-ar-y-rhydwaith ar gyfer nifer mor fach o ddarpar gwsmeriaid) a lefel y rheolaeth sydd ganddynt ar y cynnyrch terfynol o'i gymharu â gwasanaethau LLU a VULA.
- 1.13 Serch hynny, credwn ei fod yn dal yn bwysig diogelu'r gystadleuaeth sydd eisoes yn bodoli ym Marchnad A, oherwydd fel arall ni fyddai gan ddefnyddwyr ddarparwr band eang i'w ddewis (neu ddewis bychan iawn). Crynhoir ein cynigion i gyflawni'r amcan hwn isod.

Ein casgliadau dros dro a'r rheoleiddio rydym yn ei gynnig

Diffiniad o'r farchnad ac asesiad o bŵer yn y farchnad

- 1.14 Rydym wedi pennu dros dro:
- bod gwasanaethau a ddarperir drwy rwydweithiau mynediad copr, cebl a ffibr o fewn yr un farchnad, ond bod gwasanaethau band eang drwy rwydweithiau symudol, diwifr a lloeren y tu allan i'r farchnad berthnasol (yn gyson â'r Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Farchnad WLA ym mis Mawrth 2017);
 - bod yr holl gyflymderau band eang o fewn yr un farchnad;
 - ei bod yn awr yn briodol i ystyried gwasanaethau cyflym iawn a ddarperir dros rwydweithiau mynediad ffibr yn y dadansoddiad o'r farchnad ddaeryddol; ac
 - wrth ystyried cystadleuaeth a ddarperir dros rwydweithiau mynediad copr, cebl a ffibr, mae maint yr ardaloedd daeryddol lle mae'r dewis o ddarparwr band eang yn gyfyngedig wedi lleihau'n fawr i oddeutu 2% o adeiladau'r DU.
- 1.15 Rydym wedi dadansoddi amodau'r gystadleuaeth yn y marchnadoedd hyn, a dyma ein canfyddiadau dros dro:
- mae gan BT Bŵer Sylweddol yn y Farchnad wrth ddarparu gwasanaethau WBA ym Marchnad A (sy'n cyfateb i oddeutu 2% o adeiladau'r DU);

- nid oes gan yr un cwmni Bŵer Sylweddol yn y Farchnad wrth ddarparu gwasanaethau WBA ym Marchnad B (sy'n cyfateb i 97.3% o adeiladau'r DU).⁶

Rheoleiddio arfaethedig

1.16 Fel y nodwyd uchod, rydym wedi pennu dros dro y dylai maint Marchnad A ostwng i 2%. Hefyd, rydym yn cynnig rhoi nifer o fesurau ar waith i ddiogelu'r gystadleuaeth sydd eisoes yn bodoli yn Marchnad A. Yng nghyd destun amgylchiadau arbennig y farchnad hon, ni chredwn ei fod yn briodol gosod rheolaeth pris ar unrhyw un o'r gwasanaethau WBA gan na theimlwn ei fod yn debygol y bydd defnyddwyr yn wynebu prisiau adwerthol gormodol ym Marchnad A o ganlyniad i gyfyngiadau anuniongyrchol yn sgil prisiau cenedlaethol adwerthol BT a lefel y gystadleuaeth yng ngweddill y wlad. Mae'r dull hwn yn gyson â'n nod strategol i ddaddeoleiddio a symleiddio rheoleiddio lle bo modd. Mae ein hatebion arfaethedig yn cael eu rhestru yn Nhabl 1.1 isod.

Tabl 1.1: Golwg gyffredinol ar y rheoleiddio arfaethedig ar gyfer WBA ym Marchnad A

Rheoleiddio arfaethedig ar BT ym Marchnad A
Gofyniad i ddarparu mynediad i rwydwaith ar gais rhesymol ac ar gost, telerau ac amodau teg a rhesymol
Gwaharddiad rhag gwahaniaethu'n ormodol wrth gyflenwi gwasanaethau, a gofyniad i ddarparu gwasanaethau ar sail Mewnbynnau Cyfwerth (EOI) (heblaw'r gwasanaethau presennol hynny nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd ar sail Mewnbynnau Cyfwerth)
Gofyniad i gyhoeddi cynnig cyfeirio
Gofyniad i roi gwybod am newidiadau i delerau, amodau neu gostau
Gofyniad i roi gwybodaeth am newidiadau i wybodaeth dechnegol
Gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth
Dyletswydd i wahanu cyfrifon (accounting separation)
Dyletswydd i gyfrifo costau

Ymgynghori a'r camau nesaf

- 1.17 Rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion yn y ddogfen hon. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 12 wythnos a'r dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 14 Medi 2017. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am sut i ymateb.
- 1.18 Ein nod yw cyhoeddi ein casgliadau terfynol ym mis Mawrth 2018 ar gyfer cyfnod yr adolygiad o'r farchnad, sef 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2021.

⁶ Mae'r 0.7% sy'n weddill o adeiladau'r DU yn Ardal Hull ac rydym yn ymgynghori ar wahân ar gynigion ar gyfer rheoleiddio band eang cyfanwerthol yn y farchnad hon.